**CYNGOR CYMUNED FFLUR YSTRAD**
**COFNODION Y CYFARFOD MISOL,**
**NOS IAU 19/05/2016 AM 7.30PM**
**LLYFRGELL NEUADD PANTYFEDWEN**

**1. Croeso a Materion Personol**

Croesawodd y Cyngh. Doug Rowbotham bawb i'r cyfarfod a gynhaliwyd yn syth ar ôl y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (CCB). Yn ystod y CCB enwebwyd y Gyngh. Clare Hughes yn Gadeirydd a'r Gyngh. Angharad Jones yn Is-Gadeirydd Cyngor Cymuned Ystrad Fflur.

**2. YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd Doug Rowbotham (Cadeirydd);
Y Gyngh. Angharad Jones; Y Gyngh. Mair Jones; Y Cyngh. Wil Lewis;
Y Cyngh. Gareth Owen; Y Cyngh. Alun Price-Jones; Eleri Thomas (Clerc)
**Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu** John Evans.
**Aelod o'r Cyhoedd:** Mrs Nel Jones.

**3. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Gyngh. Clare Hughes, y Cyngh. John Jones, y Cyngh. Non Jones, Y Cyngh. Ifan Lloyd-Davies, Mr Bill Messer & Mrs Wilma Rush.

**4. MATERION HEDDLU**

Dywedodd Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu John Evans nad oedd unrhyw faterion yr heddlu arwyddocaol o fewn y gymuned i'w hadrodd at sylw'r Cyngor Cymuned.

**5. DATGANIAD O DDIDDORDEB:** Dim wedi eu datgan.

**6. COFNODION Y CYFARFOD O'R 21ain o Ebrill, 2016**

Cytunwyd eu bod yn gofnod cywir. Cynigiwyd gan y Gyngh. Angharad Jones ac eiliwyd gan y Gyngh. Mair Jones.

**7. MATERION YN CODI**

**7.1 Cinio Blynyddol y Cyngor Cymuned**: **ni gynhaliwyd** y ginio ar Ddydd Sadwrn 7fed o Fai 2016 yn Nheifi Inn Ffair Rhos er i'r Cyngh. Rowbotham ymwneud ag ymholiadau. Adroddodd y Cyngh. Rowbotham mai anhebygol y cynhelir y ginio eleni (2015-16).

**7.2 Cynllun Llywodraeth Cymru** - Gwefannau Cynghorau Tref a Chymuned: **PENDERFYNWYD** darganfod a ellid defnyddio y £500 grant i ddarparu dolen gyswllt i Gyngor Cymuned Ystrad Fflur oddi ar safle ar y we'r Cyngor Sir Ceredigion. *Disgwylir datblygiadau.*

**7.3 Torri Gwair o fewn y Pentref:** y mae Mr Dilwyn Benjamin yn ymwneud â'r gwaith parthed y darnau o dir sy'n gyfrifoldeb ar y Cyngor Cymuned i'w torri megis ardal Glanyrafon, o gwmpas Neuadd Pantyfedwen, ardal yr Ysgol Feithrin ac ar y fynedfa I'r pentref o Dregaron.

**7.4 Enwebu Cynghorydd Cymuned ar gyfer Fwrdd Llywodraethwyr Ysgol y Bont:** Enwebwyd y Gyngh. Angharad Jones.

**7.5 Llythyr oddi wrth Mr Martin Weetch** yn ystod Mis Mawrth ynghylch cyflwr dirywiol y bont-droed fetel sy'n croesi'r Afon Teifi ac wedi ei lleoli wrth gefn Dolau Bach ac a gyfeiriwyd ati fel y "Bont Werdd". Mae ychydig o flynyddoedd wedi mynd heibio ers iddo ef a gwirfoddolwyr beintio'r Bont Werdd (y Cyngor Sir Ceredigion wedi darparu'r paent). Ers hynny, mae ei chyflwr wedi dirywio'n aruthrol a thyllau'n amlwg ar y gwaith metel wrth gefn a'r rhannau sydd wedi eu peintio; mae cyflwr y bont bellach wedi mynd tu hwnt i unrhyw ymdrechion i'w hailbeintio. Gofynnwyd tybed a allai'r Cyngor Cymuned gyfeirio ei ymholiad at yr

unigolion sy'n gyfrifol am y bont gyda'r bwriad o'i hatgyweirio. **PENDERFYNWYD** yn ystod y cyfarfod cynt i gyfeirio'r mater at sylw Cyngor Sir Ceredigion. Dywedwyd bod y Cyngor Sir yn cyflogi "Swyddog Pontydd". Disgwylir ymateb gan Gyngor Sir Ceredigion.

**7.6** **Cylchlythyr Prosiect Ger-y-Gors Cyf: Atodiad 1** a dderbyniwyd gan Mr Bill Messer.

**7.7** **Cais Am Arian o'r Gronfa Werdd Gymunedol, Cyngor Sir Ceredigion:** Holwyd am fanylion pellach gan y Cyngor Sir.

**7.8** **Croesfan ar gyfer Cerddwyr ger Neuadd Pantyfedwen**: derbyniwyd ateb gan GSC yn sôn nad oedd tystiolaeth digonol ar gael i gyfiawnhau cyflwyno croesfan yma.

**7.9** **Codi Sbwriel yn y Cyffiniau yn ddiweddar: Penderfynwyd** anfon llythyr o ddiolch i berchennog y Llew Du am ddarparu Cawl ar ôl y digwyddiad. Hefyd i ofyn i Mrs Neli Jones i gynnwys erthygl yn y papur newydd y Cambrian News yn diolch i bawb a gymerodd rhan. Adroddwyd bod llawer o sbwriel wedi ei gasglu.

**7.10** **Cyfarfod Ardal Un Llais Cymru**: Enwebwyd y Cadeirydd Y Cynghorydd Doug Rowbotham a'r Gyngh. Clare Hughes i gynrychioli'r Cyngor Cymuned mewn Cyfarfodydd Ardal Un Llais Cymru. Cyfarfod Diwethaf; Dydd Mercher 27 Mai, 2016 am 7.30pm ym Mhenmorfa, Aberaeron. Disgwylir adborth gan y Gyngh. Clare Hughes maes o law.

## 8. GOHEBIAETH

**8.1** **Cod Ymddygiad diwygiedig ar gyfer Aelodau'r Cyngor Cymuned: daeth i rym ar yr 20fed o Fai 2016.** Bu i Gynghowyr lofnodi datganiad i gadw ato pan iddynt gymryd y swydd o Gynghorydd. Bydd y datganiad hwnnw'n ddigon i ymdrin â'r fersiwn diwygiedig.

**8.2** **Cyfarfod Blynyddol Cyngor Sir Ceredigion**, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron am 2pm 20fed o Fai 2016: er gwybodaeth.

**8.3** **Archwiliad Blynyddol Man Chwarae Pantyfedwen**: wedi ei drefnu ar gyfer mis Mehefin i'w ymwneud gan y Darparwyr Diogelwch Chwarae ROSPA.

**8.4** **Cyngor Tref Aberystwyth:** llythyr oddi wrth y Maer y Cyngh. Endaf Edwards yn diolch am y llythyr a dderbyniodd oddi wrth Gyngor Cymuned Ystrad Fflur ar ôl cael ei sefydlu yn Faer Aberystwyth am y flwyddyn 2015-16. Dywedodd ei fod wedi gwerthfawrogi'r llythyr yn fawr iawn ac yn ymddiheuro am yr oedi cyn ateb. Y mae ef a Sian wedi mwynhau'r flwyddyn yn fawr ac wedi derbyn geiriau caredig gan nifer o drigolion ardal y Bont a Ffair Rhos yn ystod ei flwyddyn fel Maer. Dymunodd yn dda i Gyngor Cymuned Ystrad Fflur ac i drigolion ardal y Bont a Ffair Rhos.

**8.5** **Gweddnewid Gwasanaethau Iechyd Meddwl: Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda:** y maent wedi clywed barn y cyhoedd parthed y weledigaeth ar gyfer gwasanaeth iechyd meddwl cymunedol modern sydd:

- Yn hygyrch i bawb 24 awr y dydd;
- Heb restrau aros;
- Yn symud i ffwrdd oddi wrth dderbyniadau a thriniaethau ysbyty at help gwell mewn argyfwng, lletygarwch (cyfleusterau sy'n edrych ac yn teimlo'n wahanol iawn i'r gwely traddodiadol i gleifion mewnol. Mewn amylchedd mwy cartrefol) ac amser-allan

- Yn darparu amser-allan dydd a chyfleoedd

**8.6** **Palmant ar gyfer pont y pentref: Bu i'r Gyngh. Clare Hughes** grybwyll y mater â'r Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru sef Mr Iwan Williams.

**8.7** **Gohebiaeth Eraill:** Er gwybodaeth yn unig.

**9. CYLLID**

**9.1** **Cyflog y Clerc Mai** 2016 £157.10; Cyllid a Thollau EM £36.56.

**9.2** **Yswiriant y Cyngor Cymuned: PENDERFYNWYD** derbyn cynnig Zurich Municipal ac i dalu £455.92 (1af Mehefin 2016 – 31 Mai 2017)

**9.3** **Derbyniadau a Gwariant Cyngor Cymuned Ystrad Ffflur 2015-16.** Dosbarthwyd ymysg aelodau.

**10. CYNLLUNIO**

**10.1** **Pwyllgor Rheoli Datblygu CSC:** Agenda a Chofnodion Cyfarfod diweddar.

**10.2** **Cais Cynllunio A160123**. Y Bwriad: Creu Gwell mynediad a threfniadau pharcio 1 a 3 Llysteg, Stryd y Bont, Pontrhydfendigaid. Cynhaliwyd Cyfarfod Safle a drefnwyd gan Gyngor Sir Ceredigion ar ddydd Gwener 22 Ebrill, 2016 am 10am. Meddylid bod Caniatad Cynllunio wedi ei glustnodi eisoes.

**10.3** **Cais Cynllunio: A160393;** Y Bwriad: Gwaredu â'r to a'r ystafelloedd gwely presennol a chreu to o'r newydd ac estynaid cefn ar y llawr uchaf. **Ymgeisydd:** Miss Carys Davies. **Sylwadau'r Cyngor Cymuned:** Dim Gwrthwynebiad.

**11. UNRHYW FATER ARALL**

**11.1** **Cwrs ar Sut i Ddefnyddio'r Difibrillator: PENDERFYNWYD** gosod manylion parthed amser a dyddiad y cwrs yn y Cambrian News.

**11.2** **Rheiliau Gwyrdd: wedi derbyn difrod. PENDERFYNWYD** y byddai'r Cyngh. Doug Rowbotham yn clustnodi sylw pellach i'r mater.

**11.3** **Yn dilyn y Cyfarfod Safle Cyngor Sir Ceredigion mis Rhagfyr** diwethaf ym mhresenoldeb y Cyngh. Gareth Owen, y Gyngh. Mair Jones a Mr Brian Thomas CSC parthed y dŵr yn cronni ar yr heol yng nghyffiniau Dolawel **PENDERFYNWYD** cysylltu â'r Cyngor Sir i ofyn os oes datblygiadau yn ymwneud â'r mater erbyn hyn.

**11.4** **Adroddwyd bod mochyn-daear wedi** trigo ar ochr yr heol yn y pentref. **PENDERFYNWYD** cysylltu â'r Cyngor Sir.

**Daeth y cyfarfod i ben am 8:25pm.**

**12. DYDDIAD Y CYFARFODYDD NESAF**
**Dydd Iau 16eg o Fehefin, 2016 am 7.00pm**

**================================================== =====(llofnod/dyddiad)**